



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid Caffael

Egwyddorion Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid Caffael

Pwrpas

Mae Tîm Caffael y Brifysgol yn hyrwyddo proffesiynoldeb wrth gaffael er mwyn cefnogi staff y brifysgol wrth iddynt ddelio â chyflenwyr ac er mwyn sicrhau bod prosesau a threfniadau caffael yn briodol ac yn effeithiol a thrwy hynny annog arloesedd, hyrwyddo cynaliadwyedd ac, yn y pen draw, sicrhau gwerth am arian. Mae'r Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid yn sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid allweddol a nodir yn gwybod am y swyddogaeth a gyflawnir gan y Tîm Caffael a sut y dosberthir y wybodaeth allweddol hon.

Trosolwg

Bydd y Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid hon yn cefnogi amcanion a chyflwyno Strategaeth Gaffael y Brifysgol.

Budd-ddeiliaid

Mae budd-ddeiliaid caffael yn bennaf yn cynnwys adrannau allweddol y brifysgol a'r prynwyr yn yr adrannau hynny. Mae grwpiau budd-ddeiliaid eraill wedi'u cynnwys yn y rhestr ganlynol:

- Prynwyr caffaeliadau allweddol/strategol
 - Gwasanaethau Eiddo a Champws
 - Gwasanaethau TG
 - Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata
 - Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau
 - Adnoddau Dynol
- Prynwyr caffaeliadau arferol - Canolfannau Cyllid Gweithrediadol
- Swyddfa Gyllid Ganolog
- HEFCW
- North Western Universities Purchasing Consortium
- Gwerth Cymru
- The National Procurement Service
- Prifysgolion a Cholegau eraill
- Cyrff cyhoeddus eraill
- Cyflenwyr

Amcanion a Thargedau i'w Cyflawni

- Targedu'r bobl iawn gyda'r wybodaeth iawn ar yr adeg iawn.
- Codi proffil y Tîm Caffael a meithrin cysylltiadau â budd-ddeiliaid allweddol drwy gyfathrebu rheolaidd a phenodol.
- Sefydlu trefn i'r Tîm Caffael i wrando ar anghenion budd-ddeiliaid a'u deall a rhoi gwelliannau ar waith.
- Gweithredu proses i alluogi cwsmeriaid mewnol i roi sylwadau ar berfformiad y Tîm Caffael.
- Rhoi gwybodaeth ddiweddaraf i grwpiau budd-ddeiliaid drwy dudalennau mewnwyd Caffael a sianelau eraill fel bo'n briodol.
- Sicrhau cysondeb mewn cyfathrebiadau drwy ganolbwyntio ar negeseuon allweddol y Tîm Caffael.
- Defnyddio cyfathrebiadau cyson eu natur i gyflwyno delwedd briodol o'r Tîm Caffael fel corff sy'n canolbwyntio ar gefnogi cleientiaid.

Model Ymwneud

Bydd y Tîm Caffael yn gweithio'n agored a chadarnhaol gyda holl grwpiau budd-ddeiliaid i gyflwyno gwasanaeth caffael sy'n cefnogi gweithgareddau'r brifysgol yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn bwriadu darparu'r canlynol fel mater o drefn:

- Gwybodaeth gyfredol am ddulliau gweithredu a contractau ar dudalennau'r gwasanaeth caffael ar y fewnwyd.
- Proses Rheoli Contractau i holl gyflenwyr allweddol y sefydlir contractau â hwy.
- Gwefan allanol wedi'i diweddarau sy'n amlinellu i gyflenwyr sut i wneud busnes â'r brifysgol.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda chysylltiadau allweddol yn Grwpiau Budd-ddeiliaid y Brifysgol.
- Proses adborth gyda chyflenwyr a gwerthuswyr mewnol ar ddiwedd pob proses gaffael i gefnogi gwelliant parhaus.
- Proses adborth ar berfformiad ar gael i gwsmeriaid mewnol.
- Dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol ar Gaffael.

Mesurau Allweddol

- Annog cydymffurfio â gweithdrefnau a phrosesau caffael.
- Cynyddu defnydd y brifysgol o gytundebau cydweithredol.
- Hwyluso cydweithredu traws-swyddogaethol.
- Hwyluso cydweithredu â phrifysgolion a cholegau eraill.
- Gwella rheoli cysylltiadau â chyflenwyr.
- Datblygu sgiliau, medrusrwydd a chynhwysedd caffael a'u gwella'n barhaus
- Gwelliant parhaus a nodi meysydd y gellir eu datblygu

Grwpiau Budd-ddeiliaid

| Grŵp Budd-ddeiliaid | Math Budd-ddeiliad | Unigolion | Cyfathrebu a argymhellir |
|--|--------------------|---|---|
| Prynwyr caffaeliadau allweddol/strategol | Prif | Penaethiaid ac/neu staff allweddol o adrannau prifysgol | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd chwarterol |
| Prynwyr caffaeliadau arferol | Prif | Cysylltiadau gweinyddol adrannol Canolfannau Cyllid Gweithrediadol | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd bob 6 mis |
| Swyddfa Gyllid Ganolog | Prif | Cyfarwyddwr, Penaethiaid Is-adrannau a staff allweddol eraill | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd wythnosol • Cyfathrebiadau ad-hoc |
| | | | |
| HEFCW | Eilaidd | Uwch Reolwr Caffael | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Blynyddol • Adroddiad Blynyddol Caffael |
| NWUPC | Eilaidd | Rheolwr/Rheolwyr Categori/Contract NWUPC Rheolwr-Gyfarwyddwr NWUPC | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ad-hoc |
| Gwerth Cymru | Eilaidd | Staff Polisi | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ac ad-hoc |
| Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | Eilaidd | Rheolwyr Categori NPS | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ad-hoc |
| Cyflenwyr a Gontractwyd | Eilaidd | Rheolwyr Cyfrif/Contract | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd adolygu Rheoli Contract |
| | | | |
| Prifysgolion a Cholegau eraill | Trydyddol | Penaethiaid Caffael | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ad-hoc |
| Cyrff sector cyhoeddus eraill | Trydyddol | Cynrychiolwyr y cyrff hyn | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ad-hoc |
| Cyflenwyr Posibl | Trydyddol | Cynrychiolwyr gwerthu | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebiadau ad-hoc • Gwefan Caffael |